**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

**Vikki Howells AS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**4 Mawrth 2025**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025 ("y Rheoliadau") yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i gychwyn paragraff 29 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022"), sy'n darparu ar gyfer diwygiadau i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

Bydd y ddarpariaeth hon yn cychwyn ar 5 Ebrill 2025, drwy Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae’r pwerau sy’n galluogi i’r Rheoliadau hyn gael eu gwneud wedi’u cynnwys yn adran 146 o Ddeddf 2022. Mae adran 146(1)(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n cynnwys darpariaethau atodol, deilliadol, darpariaeth neu ganlyniadol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf honno, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu ar gyfer rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi. Mae adran 146(2) yn datgan y caiff rheoliadau o'r fath ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

Mae adran 143(3) a (4)(e)(ii) o Ddeddf 2022 yn darparu na ellir gwneud unrhyw Reoliadau a wneir o dan adran 146 o'r Ddeddf honno, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, oni bai bod drafft wedi'i osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.

Yn amodol ar gymeradwyo'r Rheoliadau gan y Senedd, bydd Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Throsiannol) 2025 yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r Rheoliadau i gychwyn rhannau perthnasol y Ddeddf.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Paragraff 29 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn darparu ar gyfer diwygiadau i Ddeddf 2013 mewn perthynas ag ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol a darparu pwerau i ad-drefnu addysg chweched dosbarth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("Medr"), trwy fewnosod Pennod 3A newydd yn Neddf 2013, .

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer dau ddiwygiad o ganlyniad i'r diwygiadau uchod.

*Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.*

Mae Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau a diddymiadau canlyniadol; gyda pharagraff 22(4) yn diwygio adran 74 o Ddeddf 2013.

Diddymir adran 74 o Ddeddf 2013 gan baragraff 29(8) o Atodlen 4 i Ddeddf 2022, ac o'r herwydd mae'r Rheoliadau yn dileu paragraff 22(4) o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

*Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015*

Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgysylltiad cymunedau â gwarediad gan awdurdod lleol o gaeau chwarae. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ac yn nodi'r weithdrefn. Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2015 yn nodi eithriadau pan nad yw'r gofynion ymgynghori yn gymwys, gan gynnwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar y penderfyniad arfaethedig i waredu cae chwarae o dan adran 72(1) o Ddeddf 2013.

Diddymir adran 72 o Ddeddf 2013 gan baragraff 29(8) o Atodlen 4 i Ddeddf 2022, gyda darpariaeth gyfatebol wedi'i chynnwys yn yr adran newydd 63D sy'n cael ei mewnosod gan baragraff 29(7) o Atodlen 4 i Ddeddf 2022. Felly, mae'r Rheoliadau yn disodli'r cyfeiriad at Weinidogion Cymru gyda chyfeiriad at Medr, tra bo'r cyfeiriad at adran 72(1) yn cael ei ddisodli gan gyfeiriad at adran 63D(2).

## 5. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi’i gynnal gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae’r rheoliadau’n eu gwneud.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, am eu bod yn gwneud diwygiadau canlyniadol a thechnegol i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.